# Is-Ddeddfau Harbwr Porthcawl

## Datganiad Ysgrifenedig Cychwynnol yn unol â Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**Dyddiad cyhoeddi:** Dydd Llun 23 Awst

**Camau i'w cymryd:** Ymateber erbyn Dydd Gwener 14 Tachwedd

**Gwefan:** https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/

# Cynnwys

Trosolwg ..... 3
Diogelu Data ..... 3
Cefndir a Gwybodaeth ..... 3
Asesiadau Effaith ..... 7
Y Broses Ymgynghori ..... 7

## Trosolwg

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd pobl i fynegi barn am faterion sy'n codi yn Harbwr Porthcawl ac i holi ai mabwysiadu is-ddeddfau newydd yn Harbwr Porthcawl ac adolygu'r is-ddeddfau sydd mewn grym yno ar hyn o bryd, er mwyn adlewyrchu'r gweithrediadau a'r gweithgareddau cyfredol, yw'r ffordd orau i'r Cyngor fwrw 'mlaen.

## Diogelu Data

Sut y defnyddiwn y safbwyntiau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhannu â ni.

Bydd staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweld yr holl ymatebion a gyflwynir yn rhan o'r broses ymgynghori. Efallai y bydd adrannau eraill yn y Cyngor, neu aelodau o'r bwrdd gwasanaethau lleol, yn gweld yr wybodaeth hon hefyd er mwyn helpu i wella gwasanaethau.

Efallai y bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gyhoeddi dogfennau dilynol sy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Serch hynny, ni fydd y Cyngor fyth yn datgelu dim gwybodaeth bersonol megis enwau neu gyfeiriadau a allai ddatgelu pwy yr ydych chi.

Os nad ydych yn dymuno i'ch barn gael ei chyhoeddi, dywedwch hynny yn eich ymateb.

## Cefndir a Gwybodaeth

1.1 Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (“y Cyngor”) bwerau i gynorthwyo yng ngwaith gweithredu, cynnal a chadw a datblygu Harbwr Porthcawl (“yr Harbwr”), a rhaid iddo weithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Awdurdod yr Harbwr yn unol â darpariaethau Rhan V o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 (“Deddf 1987”). Mae ardal yr Harbwr wedi'i dangos mewn lliw coch ar y cynllun sydd ynghlwm. Sylwer mai'r Cyngor yw Awdurdod yr Harbwr a'r Cyngor sy'n gyfrifol am yr ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r Harbwr.

1.2 Mae Deddf 1987 yn rhoi pwerau i'r Cyngor ddelio â'r angorfeydd yn yr Harbwr.

1.3 Mae Deddf 1987 hefyd yn galluogi'r Cyngor i greu is-ddeddfau i reoli materion amrywiol yn yr Harbwr.

1.4 Mae mannau penodol o fewn i ardal yr Harbwr ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i is-ddeddfau lleol sy'n nodi mannau ymdrochi drwy Borthcawl. Sefydlwyd yr is-ddeddfau hyn ym 1953 gan yr hyn a alwyd bryd hynny'n Gyngor Dosbarth Trefol Porthcawl.

**Y Materion sy'n Codi a'r Ymgynghoriad**

1.5 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn yr Harbwr ac mae wedi llwyddo i ddatblygu'r harbwr hanesyddol yn fan cymunedol lle cynhelir ystod o weithgareddau y gall pawb eu mwynhau.

1.6 Daeth y datblygiad cyfalaf ar Farina Porthcawl i ben yn 2013. Lleolir y Marina o fewn i ardal Harbwr Porthcawl sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau basn y Marina ac sy'n cynnwys ardaloedd Cosy Corner, y morglawdd, y goleudy a llawer mwy.

1.7 O ganlyniad i'r prosiect datblygu hwn, mae gan Farina Porthcawl bellach ystod o nodweddion ychwanegol. Yn eu plith mae llifddor a system fynediad i gychod sy'n cynnig 70 o angorfeydd i ddeiliaid angorfeydd, ymwelwyr a gweithredwyr masnachol.

1.8 Mae Harbwr Porthcawl bellach yn denu grwpiau amrywiol o bobl. Mae rhai yn ymweld â'r safle am resymau cymdeithasol, fel cwsmeriaid y mangreoedd bwyd a diod masnachol, neu i gymryd rhan mewn ystod lawn o weithgareddau dŵr ac arfordirol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, pysgota, hwylio, gyrru cychod modur, sgïo dŵr, padlfyrddio ar eich traed, nofio dŵr agored a cheufadu.

1.9 Mae wedi dod yn gynyddol amlwg nad yw pwerau presennol y Cyngor yn unol â Deddf 1987 yn ddigon i reoli ac i ddiwallu anghenion yr Harbwr a'i weithrediadau cyfredol. Cwblhawyd yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch a gomisiynwyd gan y Cyngor i adolygu'r Harbwr a'i weithrediadau ym Mehefin 2019. Mae'r adroddiad hwnnw'n rhoi sylw i nifer o faterion yn yr Harbwr. Gallai Is-ddeddfau 1953, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Harbwr, fod yn peryglu'r Cyngor gan eu bod yn dynodi'r ardal ochr yn ochr â'r llithrfa yn ardal dŵr ymdrochi diogel.

Argymhellwyd yn yr adroddiad y dylai'r is-ddeddfau cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r gweithrediadau cyfredol yn yr Harbwr.

1.10 Er 2013, mae'r Harbwr wedi esblygu o fod yn safle o 25 o angorfeydd nad oedd yn denu llawer o ymwelwyr i fod yn gyrchfan o bwys â 70 o angorfeydd sydd bellach yn denu cychod ymweld. Mae yno hefyd 3 mangre fasnachol a 14 o fflatiau yn Adeilad Jennings. Mae'r safle hefyd yn denu nifer fawr o ymwelwyr yn ystod cyfnodau brig.

1.11 Mae staff y Cyngor sy'n gweithio yn yr Harbwr yn cadw cofnod dyddiol o'r hyn sy'n digwydd yno ynghyd ag unrhyw faterion sy'n codi. Ar ôl monitro'r gweithgareddau yn yr Harbwr er 2013, mae wedi dod i'r amlwg bod staff y Cyngor yn gweld llawer o faterion yn codi'u pen dro ar ôl tro. Oni fydd modd gweithredu, mae'n annhebygol y bydd y materion hyn yn diflannu. Ymhlith eu plith mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, pobl yn nofio yn y sianel fynediad tra bod cychod yn symud a pharcio heb awdurdod/parcio amhriodol.

1.12 Nid yw'r pwerau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd yn ddigon i ddelio â'r gweithgareddau yn yr Harbwr a'r materion y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw yn y fan honno.

1.13 Yng ngoleuni'r pwerau sydd ar gael yn unol â Deddf 1987, sy'n caniatáu i'r Cyngor greu is-ddeddfau a fydd yn cwmpasu ystod gynhwysfawr o faterion sy'n ymwneud â'r Harbwr a'r angen i ddirymu'n rhannol yr is-ddeddfau presennol, ymddengys i'r Cyngor mai'r ffordd orau o sicrhau bod yr Harbwr yn cael ei reoli fel y dylai yw drwy greu is-ddeddfau. Mae torri is-ddeddf yn drosedd i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.

1.14 Yn unol â darpariaethau Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, mae gofyn i'r Cyngor ymgynghori â phobl a sefydliadau â buddiant cyn creu is-ddeddfau.

Byddai'r is-ddeddfau yn cwmpasu'r materion canlynol:-

- Angori
- Mordwyo
- Pysgota

- Parcio
- Ymdrochi a phlymio
- Llifddorau
- Y llithrfa
- Cyfyngiadau ar y draethlin
- Gwastraff
- Diogelwch
- Diogeledd
- Cosbau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnwys ei breswylwyr yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym yn awyddus i wybod a ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio'r Harbwr.

## Asesiadau Effaith

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Ystyrir na fydd dim effeithiau negyddol yn deillio o'r ymgynghoriad hwn am ei fod yn gofyn i bobl am eu barn ynglŷn â sut orau i ddelio â'r materion sy'n codi yn yr Harbwr. Hefyd, bydd Cabinet y Cyngor yn cael gweld canlyniadau'r ymgynghoriad er mwyn eu hystyried.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Templed Asesu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i gwblhau a gwelir isod grynodeb o'r goblygiadau sy'n deillio o'r asesiad sy'n ymwneud â'r pum dull o weithio:

- Hirdymor: Bydd y broses a amlinellir yn cael ei dilyn i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn delio â'r materion cyfredol yn yr ardal ynghyd â'r materion hynny a ystyrir yn faterion i'r dyfodol, a bydd yn ceisio sicrhau bod y sefyllfa sydd ohoni yn fwy addas i'w diben.

- Atal: Mae natur gyfnewidiol yr Harbwr a'r rhai sy'n ei ddefnyddio wedi codi llawer o bryderon y bydd y broses i adolygu'r is-ddeddfau yn ceisio'u lliniaru a'u rheoli.
- Integreiddio: Bydd y broses ymgynghori i geisio gweld sut orau i fynd i'r afael â'r materion yn yr Harbwr, ac a ddylid mabwysiadu is-ddeddfau newydd, yn cael ei chynnal i sicrhau bod y dull y cytunwyd arno yn dod yn rhan o weithrediadau cyfredol a gweithrediadau'r dyfodol.
- Cydweithio: Bydd y broses yn cael ei chynnal drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a rhanddeiliaid allweddol.
- Cynnwys: Y broses a ddilynir i gynnal yr ymgynghoriad fydd honno a geir yn Neddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

## Y Broses Ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori yn cychwyn ar Dydd Llun 23 Awst a daw i ben ar Dydd Gwener 14 Tachwedd. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ar Friday 10 December.

Sylwer na fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau.

Dim ond tra bod yr hysbysiad cyhoeddus mewn grym y gellir cofnodi gwrthwynebiad.